**Cwmni Bysiau'r**
# Bobl




**Taith i Ypres, Gwlad Belg**
**Mai 12-20**

Rydym yn trefnu taith i ardal Ypres, ardal ddiddorol iawn yng Ngwlad Belg, ym mis Mai y flwyddyn nesaf.

Fel mae llawer o bobl yn gwybod, roedd ymladd ffyrnig yn yr ardal hon yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac mae rhai o'r ffosydd yn dal yno i gofio am y brwydro ofnadwy. Yn ogystal, mae amgueddfa hynod o ddiddorol yn Ypres ei hun ac mae cofeb Menin Gate yn cynnwys enwau'r milwyr a gafodd eu lladd yn yr ardal. Dyma'r ardal ble cafodd Hedd Wyn ei ladd a bydd cyfle yn ystod y daith i fynd i ymweld â'i fedd ac i wrando ar ddarlleniadau o rai o'i gerddi.

Mae'r ardal yn enwog am reswm arall hefyd. Yn ystod yr ail benwythnos ym mis Mai, mae Gŵyl y Cathod yn cael ei chynnal bob tair blynedd. Mae hon yn hen, hen ŵyl sy'n dyddio o'r Canol Oesoedd. Yn ogystal â gorymdaith gwisg ffansi hir iawn drwy strydoedd Ypres, mae *jester* yn dringo i ben tŵr uchel yn y sgwâr ac yn taflu cathod (teganau meddal!) i lawr i'r dyrfa oddi tano. Fel arfer, mae pawb yn disgwyl yn eiddgar yn y gobaith y byddan nhw'n dal cath, gan fod hyn i fod i ddod â lwc dda. Mae artistiaid diddorol yn rhan o'r orymdaith ac mae tân gwyllt hefyd.

**Y daith:**

| | |
|---|---|
| Mai 12: | Gadael Sgwâr y Dref am 6.00 y bore; croesi ar y fferi o Dover i Calais; teithio ymlaen i Ypres |
| Mai 13: | Taith gerdded - cyfle i weld y sgwâr hardd, i dreulio amser yn yr amgueddfa ac i ymweld â'r Menin Gate |
| Mai 14: | Taith bws o gwmpas yr ardal: ymweliad â rhai o'r ffosydd lle bu milwyr yn brwydro yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn y prynhawn, ymweliad â bedd Hedd Wyn |
| Mai 15: | Amser rhydd - cyfle i chi grwydro ar eich pen eich hun |
| **Mai 16-17:** | **Gŵyl y cathod - ..................................................** |
| Mai 16: | Amser rhydd yn ystod y dydd |
| (Sadwrn): | Gŵyl y cathod yn y nos: gwylio'r orymdaith, bandiau, tân gwyllt |
| Mai 17: | Amser rhydd yn y bore |
| (Sul): | Gŵyl y cathod yn y prynhawn a'r nos: gwylio'r orymdaith 'cathod', bandiau, fflotiau, taflwyr baneri, pobl yn cerdded ar stiltiau ac ati |
| Mai 18: | Taith bws i Frwsel, prifddinas Gwlad Belg |
| Mai 19: | Amser rhydd |
| Mai 20: | Dychwelyd |

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Debbie Jones.
debbie@cwmniteithio.co.uk
0556 777 3344